# ADRAN 56, DEDDF CYNLLUNIO 2008

nationalgrid

## RHEOLIAD 9, RHEOLIADAU CYNLLUNIO SEILWAITH (CEISIADAU: FFURFLENNI A GWEITHDREFN RAGNODEDIG) 2009

**NATIONAL GRID ELECTRICITY TRANSMISSION PLC**

**GORCHYMYN CANIATÂD DATBLYGU ARFAETHEDIG NATIONAL GRID (PROSIECT CYSYLLTIAD GOGLEDD CYMRU)**

**CYFEIRNOD Y CAIS: EN020015**

**HYSBYSIAD BOD YR YSGRIFENNYDD GWLADOL WEDI DERBYN CAIS AM ORCHYMYN CANIATÂD DATBLYGU**

Hysbysir trwy hyn bod cais gan National Grid Electricity Transmission plc ("National Grid") o 1-3 Strand, Llundain, WC2N 5RH am Orchymyn Caniatâd Datblygu ("DCO") o dan Ddeddf Cynllunio 2008 ("y Cais") wedi'i dderbyn i'w archwilio gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Cyflwynwyd y Cais gan National Grid i'r Ysgrifennydd Gwladol, d/o yr Arolygiaeth Gynllunio ("PINS"), ar 7 Medi 2018 ac fe'i derbyniwyd i'w archwilio ar 4 Hydref 2018. Cyfeirnod yr Arolygiaeth Gynllunio yw EN020015.

**CRYNODEB O'R PROSIECT**

Mae gan National Grid gytundeb cysylltu i gysylltu atomfa Wylfa Newydd â'r rhwydwaith trawsyrru presennol. Byddai'r DCO arfaethedig yn awdurdodi gwaith i gysylltu'r safle cynhyrchu hwn gan ddefnyddio cysylltiad newydd 400 kV, yn rhedeg o'r is-orsaf bresennol yn yr Wylfa, Ynys Môn i is-orsaf bresennol National Grid ym Mhentir, Gwynedd. Bwriedir i'r cysylltiad fod yn gyfuniad o linell uwchben a thwnnel o dan Afon Menai.

Gelwir y prosiect seilwaith newydd hwn yn Brosiect Cysylltiad Gogledd Cymru ("y Prosiect") ac mae'n cynnwys y prif elfennau a ganlyn:

- Estyniadau i'r is-orsaf bresennol yn yr Wylfa;
- Tua 33 cilometr (20.5 milltir) o linell uwchben newydd 400 kV rhwng is-orsaf yr Wylfa ac Adeilad Pen Twnnel a Chompownd Pennau Selio Ceblau Braint ar Ynys Môn, yn cynnwys addasu rhannau o'r llinell uwchben 400 kV bresennol rhwng yr Wylfa a Phentir;
- Adeilad Pen Twnnel a Chompownd Pennau Selio Ceblau Braint ar Ynys Môn, a lôn fynediad barhaol;
- Twnnel tua phedwar cilometr o hyd (2.5 milltir) rhwng Adeiladau Pen Twnnel Braint a Thŷ Fodol;
- Adeilad Pen Twnnel a Chompownd Pennau Selio Ceblau Tŷ Fodol yng Ngwynedd, a lôn fynediad barhaol;
- Darn newydd tua 1.6 cilometr (1 filltir) o linell uwchben newydd 400 kV rhwng Adeilad Pen Twnnel a Chompownd Pennau Selio Ceblau Tŷ Fodol ac is-orsaf Pentir.
- Estyniad i is-orsaf bresennol Pentir; a
- Compowndiau adeiladu, lonydd mynediad, ardaloedd adeiladu a gweithiau trydydd parti dros dro sy'n angenrheidiol er mwyn adeiladu'r seilwaith a restrir uchod.

**ASESIAD O'R EFFAITH AMGYLCHEDDOL**

Mae'r Prosiect yn "ddatblygiad AEA" at ddibenion Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2009. Mae hyn yn golygu bod y gwaith arfaethedig yn ddatblygiad y mae angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ar ei gyfer. Felly cyflwynwyd Datganiad Amgylcheddol gyda chais National Grid am Orchymyn Caniatâd Datblygu, ac ynddo'r wybodaeth angenrheidiol fel y gall yr Ysgrifennydd Gwladol wneud yr asesiad hwnnw.

**COPÏAU O DDOGFENNAU'R CAIS**

Mae copi o'r ffurflen gais a'r dogfennau, y planiau a'r adrannau a gyflwynwyd gyda hi ar gael i'w gweld am ddim rhwng 17 Hydref 2018 a 29 Tachwedd 2018, yn y mannau ac ar yr amserau isod.

Gellir gweld copïau o ddogfennau'r cais ar lein ar y dudalen berthnasol ar gyfer y Prosiect hwn, trwy wefan yr Arolygiaeth Gynllunio: **https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/cy/projects/cysylltiad-gogledd-cymru/**

Gellir cael copïau o'r dogfennau, y planiau a'r mapiau gan National Grid os gofynnwch trwy ebostio **nationalgrid@cysylltiadgogleddcymru.com**, ysgrifennu i **FREEPOST NATIONAL GRID NW CONNECTION** neu ffonio **0800 990 3567**. Codir tâl copïo rhesymol (hyd at uchafswm o £1,000) am gyflenwi copi caled o'r set gyfan o ddogfennau'r cais. Gallwch ofyn am gopïau o'r dogfennau unigol hefyd. Gellir codi tâl rhesymol.

Mae copi electronig o'r dogfennau ar gof bach USB ar gael am ddim.

**YMATEB I'R CAIS**

Os hoffech gyflwyno sylw i'r Ysgrifennydd Gwladol am y Prosiect (h.y. hysbysu am fuddiant yn y Cais neu wrthwynebiad iddo), mae'n rhaid i chi wneud hynny ar ffurflen gofrestru. Mae'r Arolygiaeth Gynllunio'n rhoi canllawiau manwl ynghylch cofrestru a chyflwyno sylwadau yn Nodyn Cyngor 8.2: 'Sut i gofrestru i gymryd rhan mewn Archwiliad' ac, yn ogystal, yn Nodyn Cyngor 8.3: 'Dylanwadu ar sut y caiff cais ei archwilio: y Cyfarfod Rhagarweiniol'. Gallwch weld y ddwy ddogfen ar lein trwy wefan yr Arolygiaeth ac fe'ch cynghorir i dalu sylw i'r ddwy ohonynt.

Dylid cyflwyno sylwadau ar ffurflen 'Cofrestru a Sylwadau Perthnasol' yr Arolygiaeth Gynllunio sydd wedi'i llenwi i gyd. Dylech gynnwys crynodeb o'r pwyntiau yr hoffech eu gwneud am y Cais, yn cynnwys yr hyn y tybiwch chi yw'r prif faterion, beth yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno ag ef yn y Cais a pham, a beth fydd yr effeithiau yn eich barn chi.

Bydd yr Arolygiaeth Gynllunio'n trefnu bod y ffurflen Cofrestru a Sylwadau Perthnasol ar gael ar y dudalen berthnasol ar gyfer y Prosiect hwn, trwy wefan yr Arolygiaeth.

Neu gallwch ofyn am gopi caled o'r ffurflen trwy ffonio **0303 444 5000** a nodi enw'r Prosiect. Os byddwch am gyflwyno ffurflen bapur i'r Arolygiaeth Gynllunio, dylid ei hanfon i **Yr Arolygiaeth Gynllunio/The Planning Inspectorate, Y Gyfarwyddiaeth Seilwaith Genedlaethol/National Infrastructure Directorate, Temple Quay House, Temple Quay, Bryste/Bristol BS1 6PN.** Dylid nodi cyfeirnod yr Arolygiaeth Gynllunio (EN020015) ar bob gohebiaeth.

Rhaid i unrhyw sylwadau ddod i law'r Arolygiaeth erbyn 23:59 ar 29 Tachwedd 2018 fan bellaf.

Sylwch: Bydd yr holl sylwadau'n cael eu cyhoeddi.

**National Grid Electricity Transmission plc**

**LLEOLIADAU AC AMSERAU:**

| Lleoliad | Copi ar gael | Amserau agor |
|---|---|---|
| **Ynys Môn** | | |
| **Canolfan Fusnes Môn**<br>Parc Busnes Bryn Cefni, Llangefni, Ynys Môn LL77 7XA | Un copi caled i'w archwilio | Dydd Llun: 9.00am - 5pm, Dydd Mawrth: 9.00am - 5pm, Dydd Mercher: 9.00am - 5pm, Dydd Iau: 9.00am - 5pm, Dydd Gwener: 9.00am - 5pm |
| **Llyfrgell Amlwch**<br>Lôn Parys, Amlwch, LL68 9EA | Copïau electronig ar gael *(Cyfrifiaduron cyhoeddus a Wi-fi am ddim ar gael)* | Dydd Mawrth: 9:30am - 12:30pm, 2pm - 5pm, Dydd Mercher: 9:30am - 12:30pm, Dydd Iau: 2pm - 7pm, Dydd Gwener: 9:30am - 12:30pm Dydd Sadwrn: 9:30am - 12:30pm |
| **Llyfrgell Porthaethwy**<br>Ffordd y Ffair, Porthaethwy, Ynys Môn, LL59 5AS | Copïau electronig ar gael *(Cyfrifiaduron cyhoeddus a Wi-fi am ddim ar gael)* | Dydd Mawrth: 1pm - 6pm, Dydd Mercher: 9:30am - 12:30pm, Dydd Iau: 1pm - 6pm, Dydd Gwener: 1pm - 5pm, Dydd Sadwrn: 9:30am - 12:30pm |
| **Gwynedd** | | |
| **Siop Gwynedd**<br>Pencadlys Cyngor Gwynedd, Stryd y Castell, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SE | Un copi caled i'w archwilio | Dydd Llun: 8:40am - 5pm, Dydd Mawrth: 8:40am - 5pm, Dydd Mercher: 8:40am - 5pm, Dydd Iau: 8:40am - 5pm, Dydd Gwener: 8:40am - 5pm |
| **Llyfrgell Bangor**<br>Ffordd Gwynedd, LL57 1DT | Copïau electronig ar gael *(Cyfrifiaduron cyhoeddus a Wi-fi am ddim ar gael)* | Dydd Llun: 9:30am - 6:30pm, Dydd Mawrth: 9:30am - 6:30pm, Dydd Mercher: 9:30am - 5pm, Dydd Iau: 9:30am - 5pm, Dydd Gwener: 9:30am - 5pm, Dydd Sadwrn: 9:30am - 1pm |

# SECTION 56, PLANNING ACT 2008

nationalgrid

## REGULATION 9, INFRASTRUCTURE PLANNING (APPLICATIONS: PRESCRIBED FORMS AND PROCEDURE) REGULATIONS 2009

**NATIONAL GRID ELECTRICITY TRANSMISSION PLC**

**PROPOSED NATIONAL GRID (NORTH WALES CONNECTION PROJECT) DEVELOPMENT CONSENT ORDER**

**APPLICATION REFERENCE NO: EN020015**

**NOTICE OF ACCEPTANCE OF APPLICATION FOR A DEVELOPMENT CONSENT ORDER BY THE SECRETARY OF STATE**

Notice is hereby given that the Secretary of State has accepted an application by National Grid Electricity Transmission plc ("National Grid") of 1-3 Strand, London, WC2N 5RH for a development consent order ("DCO") under the Planning Act 2008 ("the Application"). The Application was submitted by National Grid to the Secretary of State, c/o The Planning Inspectorate ("PINS"), on 7 September 2018 and was accepted on 4 October 2018. The PINS reference number is EN020015.

**SUMMARY OF THE PROJECT**

National Grid has a connection agreement to connect Wylfa Newydd nuclear power station to the existing transmission network. The proposed DCO would authorise works to connect this generation by means of a new 400 kV connection running from the existing substation at Wylfa, Anglesey to the existing National Grid substation at Pentir, Gwynedd. The connection is proposed as a combination of overhead line and a tunnel beneath the Menai Strait.

This new infrastructure project is known as the North Wales Connection Project ("the Project") and includes the following principal elements:

- Extensions to the existing substation at Wylfa;
- Approximately 33 kilometres (20.5 miles) of new 400 kV overhead line (OHL) between Wylfa substation and Braint Tunnel Head House and Cable Sealing End Compound on Anglesey, including modifications to parts of the existing 400 kV OHL between Wylfa and Pentir;
- Braint Tunnel Head House and Cable Sealing End Compound on Anglesey, and a permanent access track;
- An approximately four kilometres (2.5 mile) tunnel between Braint and Tŷ Fodol Tunnel Head Houses;
- Tŷ Fodol Tunnel Head House and Cable Sealing End Compound in Gwynedd, and a permanent access track;
- An approximately 1.6 kilometres (1 mile) new section of 400 kV overhead line between Tŷ Fodol Tunnel Head House and Cable Sealing End Compound and Pentir Substation;
- Extension to the existing substation at Pentir; and
- Temporary construction compounds, access tracks, construction working areas and third party works that are required to construct the infrastructure listed above.

**ENVIRONMENTAL IMPACT ASSESSMENT**

The Project is an "EIA development" for the purposes of the Infrastructure Planning (Environmental Impact Assessment) Regulations 2009. This means that the proposed works constitute development for which an Environmental Impact Assessment is required. National Grid's application for a DCO is therefore accompanied by an Environmental Statement, containing the information that is required for the Secretary of State to make that assessment.

**COPIES OF APPLICATION DOCUMENTS**

A copy of the application form and its accompanying documents, plans and sections is available for inspection free of charge from 17 October 2018 until 29 November 2018, at the following locations and times set out below.

Copies of the application documents can be viewed online on the relevant page for this Project, accessible via PINS' website: **https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/projects/wales/north-wales-connection/**

Copies of the documents, plans and maps can be provided on request from National Grid by emailing **nationalgrid@northwalesconnection.com**, by writing to **FREEPOST NATIONAL GRID NW CONNECTION**, or by telephoning **0800 990 3567**. A reasonable copying charge will apply (up to a maximum of £1,000) for supplying a hard copy of the full suite of application documents. Copies of individual documents are also available on request. A reasonable charge may be applied.

An electronic copy of the documents on a USB memory stick can be obtained free of charge.

**RESPONDING TO THE APPLICATION**

To make a representation to the Secretary of State in respect of the Project (i.e. giving notice of any interest in, or objection to, the Application) you must submit it on a registration form. Detailed guidance on registering and making representations is provided by PINS in Advice Note 8.2: 'How to register to participate in an Examination', and, additionally, Advice Note 8.3: 'Influencing how an application is Examined: the Preliminary Meeting', both of which can be accessed online via PINS' website. You are advised to have regard to both of these documents.

Representations should be submitted on a fully completed Planning Inspectorate Registration and Relevant Representation form. You should include a summary of the points you wish to make about the application, covering what you consider to be the main issues, what you agree with or disagree with in the Application and why, and what you consider the impacts will be.

The Planning Inspectorate Registration and Relevant Representation form will be made available by PINS on the relevant page for this Project, accessible via PINS' website.

Alternatively you can request a hard copy of the form by telephoning **0303 444 5000** and by quoting the name of the Project. Any hard copy form to be submitted to PINS should be sent to **The Planning Inspectorate, National Infrastructure Directorate, Temple Quay House, Temple Quay, Bristol BS1 6PN.** The PINS reference number (EN020015) should be quoted in any correspondence.

Any representation must be received by PINS no later than 23:59 on 29 November 2018.

Please note that representations will be made public.

**National Grid Electricity Transmission plc**

**LOCATIONS AND TIMES:**

| Location | Copy available | Opening times |
|---|---|---|
| **Anglesey** | | |
| **Anglesey Business Centre**<br>Bryn Cefni Business Park, Llangefni, Anglesey LL77 7XA | One inspection hard copy | Monday: 9.00am - 5pm, Tuesday: 9.00am - 5pm, Wednesday: 9.00am - 5pm, Thursday: 9.00am - 5pm, Friday: 9.00am - 5pm |
| **Amlwch Library**<br>Lôn Parys, Amlwch, LL68 9EA | Electronic copies available *(Public computers and free Wi-fi available)* | Tuesday: 9:30am - 12:30pm, 2pm - 5pm, Wednesday: 9:30am - 12:30pm, Thursday: 2pm - 7pm, Friday: 9:30am - 12:30pm, Saturday: 9:30am - 12:30pm |
| **Menai Bridge Library**<br>Wood Street, Menai Bridge, LL59 5AS | Electronic copies available *(Public computers and free Wi-fi available)* | Tuesday: 1pm - 6pm, Wednesday: 9:30am - 12:30pm, Thursday: 1pm - 6pm, Friday: 1pm - 5pm, Saturday: 9:30am - 12:30pm |
| **Gwynedd** | | |
| **Siop Gwynedd**<br>Gwynedd Council's Headquarters, Castle Street, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SE | One inspection hard copy | Monday: 8.40am - 5pm, Tuesday: 8.40am - 5pm, Wednesday: 8.40am - 5pm, Thursday: 8.40am - 5pm, Friday: 8.40am - 5pm |
| **Bangor Library**<br>Gwynedd Road, LL57 1DT | Electronic copies available *(Public computers and free Wi-fi available)* | Monday: 9:30am-6.30pm, Tuesday: 9:30am-6.30pm, Wednesday: 9:30am-5pm, Thursday: 9:30am-5pm, Friday: 9:30am-5pm, Saturday: 9:30am-1pm |